


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# The R&D Factory Ltd

Cafodd The R&D Factory Ltd ei sefydlu gyda'r nod o elwa ar arloesi. Erbyn hyn, mae ar fin manteisio ar y farchnad blastigion fyd-eang sy'n werth $180 biliwn.

ERDF
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
**Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol**
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
**Europe & Wales: Investing in your future**
European Regional Development Fund

Sefydlwyd The R&D Factory i ddyfeisio a datblygu cynnyrch a phrosesau cymdeithasol-gyfrifol a fyddai'n golygu manteision amgylcheddol a masnachol.

Ar ôl cael arian gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwaith helaeth ym maes ymchwil a datblygu, fe wnaeth R&D Factory greu Streamoulding, sef y broses ôl-ffitio gyntaf yn y byd sy'n ewynnu plastigion ar gyfer mowldin chwistrellu. Mae'r broses yn defnyddio dŵr tap fel cyfrwng ewynnu i greu plastig ysgafn sy'n gallu lleihau pwysau polymer traddodiadol hyd at 40%. Mae hyn yn arbed deunyddiau ac ynni wrth fowldio'r rhan fwyaf o eitemau plastig. Er enghraifft, gyda wyth biliwn o gambrenni plastig ar gyfer dillad yn mynd i dirlenwi bob blwyddyn, mae cyfle enfawr i Streamoulding gael ei ddefnyddio i leihau'r effaith amgylcheddol a sicrhau bod llai o blastig a deunyddiau crai yn cael eu defnyddio.

Gydag arian rheolaidd gan gynllun SMARTCymru Llywodraeth Cymru, mae'r R&D Factory ar fin gwireddu diddordeb masnachol gan lawer o gwmnïau mawr rhyngwladol, gan gynnwys gwneuthurwyr mwyaf y byd ym maes cambrenni plastig ar gyfer dillad. Canfuwyd cyfleoedd mewn marchnadoedd yn y Deyrnas Unedig, Ewrop a'r Dwyrain Pell, yn enwedig Tsieina. Mae'r cwmni hefyd wedi sicrhau patent ar gyfer Streamoulding yn y Deyrnas Unedig, ac mae ganddo gais rhyngwladol yn mynd rhagddo mewn tair marchnad bwysig, sef yr UDA, Ewrop a Tsieina.

Yn ôl John Heaton, cyfarwyddwr R&D Factory: "Rydym yn herio confensiynau ac yn canolbwyntio ar ddatblygu systemau masnachol, "elw drwy Arloesi" yw ein cred. Yn ariannol, ein nod yw sicrhau ffrydiau incwm drwy werthu'n uniongyrchol a thrwyddedu ein heiddo deallusol. Roedd y gwaith ymchwil a datblygu yr oedd ei angen er mwyn dod â'n cysyniad Streamoulding i'r farchnad yn wastad yn mynd i fod yn un hirfaith, ond ein gobaith yw gweld gwireddu'r manteision masnachol cyn bo hir, a hynny gyda chymorth arian Llywodraeth Cymru."

Busnes Cymru
Business Wales

I wybod rhagor am gyllid a chymorth gan Lywodraeth Cymru:

**Ebost:** businesssupport@wales.gsi.gov.uk

**Gwefan:** busnes.cymru.gov.uk

**Ffôn:** 03000 6 03000

arloesi

WG17397 / © Hawlfraint y Goron 2014